**Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth SCHTh: 41-2018**

**Cais:**

1) A yw Swyddfa'r Comisiynydd yn ariannu canolfannau trydydd parti ar gyfer adrodd am droseddau casineb?
2) Faint o arian a wariwyd ar y canolfannau yn 2016, 2017, a hyd yn hyn yn 2018?
3) Sawl canolfan sydd yn yr ardal heddlu?
4) Sawl adroddiad am droseddau casineb ddaeth o'r canolfannau yn 2016, 2017, a hyd yn hyn yn 2018?

**Ymateb 1 – 4:**

Mae Adran 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod dwy ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus. Oni bai bod eithriadau'n gymwys, y ddyletswydd gyntaf dan Adran 1(1)(a) yw cadarnhau neu wadu pa un ai a yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cael ei chadw ai peidio. Yr ail ddyletswydd dan Adran 1(1)(b) yw datgelu'r wybodaeth a gadarnhawyd ei bod yn cael ei dal.

1) Na, nid yw Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn ariannu canolfannau trydydd parti ar gyfer adrodd am droseddau casineb.

2) Amherthnasol, yn seiliedig ar yr ymateb a roddwyd mewn perthynas â chwestiwn 1 uchod.

3) Nid oes gwybodaeth wedi'i dal/cofnodi gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Mae'n bosibl fod Heddlu Dyfed-Powys yn cadw'r wybodaeth hon.

4) Nid oes gwybodaeth wedi'i dal/cofnodi gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Mae'n bosibl fod Heddlu Dyfed-Powys yn cadw'r wybodaeth hon.

---

(Dyma ymateb o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddatgelwyd ar 18/12/18)